

Rhif: WG26416



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

## **Pysgota Cregyn Bylchog ym Mae Ceredigion – Mesurau Rheoli Newydd**

Medi 2016

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd  
This document is also available in English

**OGL**

© Crown Copyright Digital ISBN 978-1-4734-6692-0





# Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Cyfnod a Dosbarthiad yr Ymgynghoriad
  - 3.1 Ymgyrchoedd
  - 3.2 Deisebau
4. Trosolwg o Ymatebion
  - 4.1 Categoriâu Allweddol
5. Ymatebion
6. Crynodeb
7. Camau Nesaf
8. Rhestr o Ymatebwyr

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Ym mis Tachwedd 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i ganfod barn ar y cynnig i gyflwyno cynllun rheoli hyblyg ar gyfer pysgota cregyn bylchog mewn modd cynaliadwy ym Mae Ceredigion. Cafwyd 5000 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Roedd nifer o'r ymatebion yn mynegi barn bendant ac, mewn rhai achosion, gwahaniaeth barn ar y ffordd orau o reoli pysgodfa mewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

Mae pob ymateb wedi cael ei ddadansoddi gan swyddogion, ac mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi ystyried yr ymatebion a thystiolaeth yn ofalus cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen ar 6 Hydref. Bydd rhagor o gyngor a gwybodaeth ar gael yn yr hydref.

## 2. CYFLWYNIAD

Lansiwyd yr ymgynghoriad Pysgota Cregyn Bylchog ym Mae Ceredigion – Mesurau Rheoli Newydd i ganfod barn ar gyflwyno cynllun rheoli hyblyg ar gyfer pysgota cregyn bylchog ym Mae Ceredigion, gyda'r nod o sefydlu pysgodfa cregyn bylchog hyfyw a chynaliadwy o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), i gynnwys yr ardal lle mae pysgota cregyn bylchog wedi'i wahardd ar hyn o bryd yn ogystal â'r ardal lle mae hawl pysgota cregyn bylchog yn dymhorol (y Kaiser Box). Bwriad y cynigion hyn oedd cynyddu cymaint â phosibl y bysgodfa cregyn bylchog yn yr ACA, ond hefyd diogelu rhywogaethau a chynefinoedd morol pwysig a lleihau'r effaith ar nodweddion gwarchoddedig yn y safle.

Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno'r wyddoniaeth oedd yn sail i'r cynnig, sef rhaglen o waith ymchwil a gynhaliwyd gan [Brifysgol Bangor](http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/wales/scallops.php.en?menu=1&catid=10722&subid=10800)<sup>1</sup>, yn cynnwys [Arbrawf Dwysedd Pysgota Cregyn Bylchog](http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/wales/reports.php.en?menu=1&catid=10722&subid=10805)<sup>2</sup> sydd wedi'i gynnal dros y 2 flynedd ddiwethaf yn ACA Bae Ceredigion, ar y cyd â'r diwydiant.

Adeg cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, nid oedd Gweinidogion Cymru wedi penderfynu a fyddai cynllun trwyddedu hyblyg newydd yn cael ei gyflwyno, nac ychwaith ar yr amodau a fyddai ynghlwm wrth y drwydded. Nod yr ymgynghoriad oedd cael barn pobl yn y lle cyntaf ynghylch a ddylid cyflwyno cynllun trwyddedu ac, os felly, cael barn ar y mesurau y byddai angen eu cynnwys yn y cynllun hyblyg er mwyn i Lywodraeth Cymru allu rheoli'r cynllun yn gynaliadwy yn unol â gofynion polisi a gofynion statudol.

## 3. CYFNOD A DOSBARTHIAD YR YMGYNGHORIAD

Dechreuodd yr ymgynghoriad yn wreiddiol ar 14 Hydref 2015 gyda dyddiad cau o 5 Ionawr 2016.

Yn anffodus, ar ôl i'r ymgynghoriad ddechrau, daeth i'r amlwg bod problem dechnegol gyda'r ffurflen ymateb ar-lein, ac roedd hyn yn codi amheuan am ba mor ddibynadwy oedd yr ymatebion a oedd wedi dod i law hyd hynny. Penderfynwyd atal yr ymgynghoriad dros

<sup>1</sup> <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/wales/scallops.php.en?menu=1&catid=10722&subid=10800>

<sup>2</sup> <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/wales/reports.php.en?menu=1&catid=10722&subid=10805>



dro ac ail-lansio ymgynghoriad newydd ar 26 Tachwedd 2015. Parodd yr ymgynghoriad newydd am 12 wythnos, gan gau ar 17 Chwefror 2016. Gan fod amheuan am ddibynadwyedd yr atebion a gyflwynwyd yn electronig cyn yr ail-lansio, dywedwyd wrth bawb a oedd wedi cyflwyno ymateb yn electronig na fyddai eu hymateb yn cael ei ystyried a gofynnwyd iddynt ailgyflwyno'u hymateb. Oherwydd hyn, nid ydym wedi dadansoddi'r ymatebion electronig a gyflwynwyd cyn ail-lansio'r ymgynghoriad.

Anfonwyd llythyr yn hysbysu Rhanddeiliaid yr ymgynghoriad gwreiddiol at oddeutu 2000 o randdeiliaid drwy'r post neu e-bost, ac roedd yn rhoi manylion y cyfeiriadau gwe lle'r oedd modd dod o hyd i'r dogfennau hefyd. Er bod yr ymgynghoriad ar gael ar-lein, roedd Rhanddeiliaid yn gallu dewis cysylltu â Swyddogion Llywodraeth Cymru i ofyn am gopi caled o'r ddogfen.

Ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori, dosbarthwyd Ffurflen Ymateb, a oedd yn cynnwys 17 cwestiwn am y cynllun rheoli. Roedd y cwestiwn cyntaf yn gofyn am fuddiant yr ymatebydd yn y bysgodfa cregyn bylchog a'r ail yn gofyn am ei farn ar sefydlu cynllun trwyddedu.

Roedd cwestiynau pellach (3-16) yn gofyn am farn ar natur yr amodau trwyddedu a fyddai'n dderbyniol, pe bai cynllun trwyddedu'n mynd yn ei flaen.

Roedd cwestiwn 17 yn gofyn am sylwadau pellach ar y cwestiynau blaenorol.

### **3.1 YMGYRCHOEDD**

Roedd nifer o ymgyrchoedd mawr gan sefydliadau yn erbyn y cynigion yn annog eu haelodau i wrthwynebu cynigion yr ymgynghoriad. Mae ein dadansoddiad yn cadarnhau bod llawer o'r ymatebion a ddaeth i law yn defnyddio templedi neu eiriad o lenyddiaeth ymgyrchoedd neu'n cyfeirio at yr ymgyrch.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol hefyd o gyhoeddusrwydd negyddol am y cynigion yn y wasg genedlaethol ac ar y teledu yn ystod yr ymgynghoriad.

Hefyd, roedd nifer o ymgyrchoedd wedi'u trefnu gan Gymdeithasau Pysgota o blaid y cynigion, a chafwyd llawer o ymatebion tebyg diolch i'r ymgyrchoedd hyn.

### **3.2 DEISEBAU**

Yn ystod yr ymgynghoriad, cafodd y deisebau canlynol eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a Phwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Deiseb 'Save Cardigan Bay' gyda 27,000 o lofnodion yn gwrthwynebu'r cynigion llusgrwydo cregyn bylchog. Dechreuwyd y ddeiseb gan Mick Green o'r Whale & Dolphin Conservation, gyda chefnogaeth y Gymdeithas Cadwraeth Forol a Client Earth. Adeg drafftio'r dadansoddiad hwn, roedd nifer y llofnodion wedi cynyddu i 30,486.

- Deiseb o 33 llofnod yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal llusgrwydo cregyn bylchog ym Mae Ceredigion ac i sicrhau bod y dolffiniaid a'r llamhidyddion sy'n byw yno yn cael eu gwarchod yn awr ac yn y dyfodol.

#### 4. TROSOLWGW O YMATEBION

Cafwyd ymatebion gan ystod helaeth o randdeiliaid ag amrywiaeth eang o fuddiannau. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi cwblhau'r holiadur a roddwyd; ond roedd nifer fach wedi cyflwyno ymatebion ar ffurf testun rhydd.

Fe wnaeth yr ymgynghoriad esgor ar lawer o safbwyntiau cryf a chyferbyniol am y ffordd orau o reoli pysgodfa mewn Ardal Cadwraeth Arbennig. Yn ogystal ag ymatebion a ddaeth i law Is-adran y Môr a Physgodfeydd, derbyniodd Gweinidogion ohebiaeth gan 156 o aelodau'r cyhoedd, gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn derbyn 25 o ymholiadau gan Weinidogion ac Aelodau'r Cynulliad. Yn ogystal, gofynnwyd pum Cwestiwn y Cynulliad i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol.

Derbyniwyd cyfanswm o 5622 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori, nail ai drwy'r arolwg ar-lein, copi caled, e-bost neu destun rhydd.

Derbyniwyd pum deg dau o ymatebion drwy'r e-bost ar ôl y dyddiad cau, pob un ohonynt yn gwrthwynebu'r cynigion. Er nad yw'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y ddogfen grynodeb, bydd sylwadau'n cael eu hystyried yn ystod y broses benderfynu.

O ganlyniad i'r nifer fawr o ymatebion a ddaeth i law, nid oes modd cyflenwi copïau o'r ymatebion gwreiddiol; fodd bynnag, mae taenlen wedi'i chreu o'r holl ymatebion ac mae ar gael ar gais (gyda darnau wedi'u dileu lle bo'n briodol).

Mae rhestr o'r holl ymatebwyr a oedd yn fodlon cyhoeddi eu manylion yn **Atodiad A**.

Os yw unigolyn neu sefydliad wedi ymateb fwy nag unwaith (mewn gwahanol ddulliau fel arfer), mae eu sylwadau wedi cael eu huno ac yn cael eu cyfrif fel un ymateb at ddibenion y dadansoddiad hwn.

Ni wnaeth pob ymatebydd ateb cwestiynau'r ymgynghoriad yn uniongyrchol – roedd hi'n well gan rai gyflwyno sylwadau yn C16 a C17. Yn y cyfryw achosion, ac at ddibenion y ddogfen hon, mae'r sylwadau yn C16 a C17 wedi cael eu dehongli gan swyddogion a'u dyrannu i'r cwestiwn priodol.

O'r sylwadau a gafwyd gan lawer o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynigion, mae ein dadansoddiad yn dangos nad oeddent, o bosibl, yn ymwybodol o'r llusgrwydo cregyn bylchog dan reolaeth sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan drwydded yn ACA Bae Ceredigion.

Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn beirniadu'r ddogfen ymgynghori. Y prif gŵyn oedd bod diwyg yr holiadur yn rhoi'r argraff bod penderfyniad eisoes wedi'i wneud i fwrw ymlaen â'r cynllun rheoli. Hwyrach fod y farn hon yn seiliedig ar y ffaith fod cyfran fawr o'r cwestiynau'n gofyn am farn ar yr amodau a fyddai'n cael eu hystyried pe bai cynllun trwyddedu'n cael ei gyflwyno.

Dyma ddadansoddiad o'r ymatebion fesul ardal:

Cymru		Gweddill y DU		Byd-eang		Anhysbys	
Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
1821	32	2967	53	80	1	754	13



## 4.1 CATEGORÏAU ALLWEDDOL

I wneud pethau'n fwy eglur eto, cafodd yr ymatebion eu grwpio i gategorïau allweddol ac mae crynodeb ohonynt isod:

1	Gwaharddiad llwyr ar unrhyw weithgarwch llusgrwydo yn yr ACA.	19%
2	Gwrthwynebu ar sail difrod i'r amgylchedd, (heb gynnig rhagor o dystiolaeth neu resymau gwyddonol dilys).	64%
3	Gwrthwynebu, gan gynnig tystiolaeth neu resymau gwyddonol dilys ychwanegol.	1%
4	Cefnogi cynllun rheoli hyblyg.	16%

## 5. YMATEBION

**Cwestiwn 1 – Beth yw'ch diddordeb yn y bysgodfa cregyn bylchog?**

Nifer yr Ymatebion fesul Categori		
Categori'r ymatebydd	Nifer yr ymatebion	% o ymatebwyr o bob sector
Pysgotwr Cregyn Bylchog Masnachol	64	1.3%
Pysgotwr Masnachol	72	1.3%
Pysgotwr Pysgod Cregyn Masnachol	8	0.1%
Pysgotwr Hamdden	206	4.0%
Corff y Diwydiant	21	0.4%
Amgylchedd / Cadwraeth	3195	57.0%
Arall (ni roddwyd disgrifiad)	1429	25.0%
Heb ddatgan *	627	11.0%

*\*Nid oedd modd pennu'r categori neu'r opsiwn a ffafir o'r ymateb a roddwyd ym mhob achos felly rhoddir 'Heb ddatgan' ar gyfer rhai ymatebion.*

**Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno â chyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer cregyn bylchog ym Mae Ceredigion, gydag amodau'n berthnasol hyd at 12 môr-filltir o'r lan?**

Ydw	Nac ydw	Heb ateb
916	4251	455

Mae'r rhain wedi'u rhannu i'r categorïau yn C1:

	Ydw	Nac ydw	Heb ateb
Pysgotwr Cregyn Bylchog Masnachol	55	8	1
Pysgotwr Pysgod Cregyn Masnachol	8	0	0
Pysgotwr Masnachol	67	5	0
Pysgotwr	75	130	1

Hamdden			
Corff y Diwydiant	12	9	0
Amgylchedd / Cadwraeth	59	3078	58
Arall	629	786	14
Heb Ddatgan	11	235	381

Yn dilyn cwestiwn 2, roedd y ffurflen ymateb yn datgan:

*“Os ydych chi wedi ateb ‘nac ydw’ i C2, mae’n amlwg nad ydych chi’n cefnogi’r syniad o’r bysgodfa drwydded arfaethedig a bydd eich ymateb yn cael ei gofnodi felly. Oherwydd hynny, nid oes angen i chi ymateb i’r cwestiynau canlynol am fanylion sut gallai pysgodfa o’r fath weithredu. Serch hynny, os hoffech eu hateb, mae croeso i chi wneud hynny, ac os penderfynir bwrw ymlaen â chynllun trwydded, bydd eich barn ar fanylion amodau’r drwydded yn cael ei hystyried”.*

O ganlyniad i’r datganiad uchod, ni wnaeth canran fawr o ymatebwyr ymateb i weddill y cwestiynau, er i rai ddewis cyflwyno sylwadau ychwanegol o dan C16 a C17. O’r 76% o ymatebwyr a atebodd ‘nac ydw’ i’r cwestiwn hwn, fe wnaeth 7% ymateb i’r cwestiynau eraill.

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi’r cynnig yn cynnwys:

- Mae ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i’r cwestiwn hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai trwydded newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru a’i hamodau cysylltiedig yn berthnasol i’r ardal o ACA Bae Ceredigion sydd rhwng 3 a 12 môr-filltir o’r lan yn unig ac nid Bae Ceredigion yn ei gyfanrwydd fel y nodwyd yn y cwestiwn. Rydym o’r farn ei bod hi’n hanfodol cynnwys map yn amlinellu’r ardal benodol lle bydd y cynllun trwyddedu cregyn bylchog yn berthnasol.*

*Ar hyn o bryd, rhaid i gychod sy’n bwriadu pysgota am gregyn bylchog o fewn awdurdodaeth Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru (NWNWSFC) gynt, yn cynnwys y rhan o ACA Bae Ceredigion sydd 0-6 môr-filltir o’r lan, gael trwydded gan Lywodraeth Cymru o dan Is-ddeddf 12 o Is-ddeddfau NWNWSFC sydd wedi’u cadw. Mae’r drwydded hon yn destun nifer o amodau rheoli o ran cyfyngiadau gofod/amser a chynllun offer. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n cynghori Llywodraeth Cymru’n flynyddol ar effeithiau posibl y drwydded gyfredol ar yr amgylchedd o dan Erthygl 6 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n cefnogi’r cynnig i ymestyn ffin yr ardal ddaearyddol sy’n destun trwydded o derfyn 6 môr-filltir i derfyn 12 môr-filltir ACA Bae Ceredigion ac i gynyddu’r ystod o fesurau rheoli a fyddai’n gysylltiedig â’r drwydded. Byddai unrhyw drwydded newydd, fel cynllun neu brosiect, yn yr un modd yn destun asesiad amgylcheddol o dan Erthygl 6 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a rhaid iddi beidio â chael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle.*
- Rwy’n meddwl bod hyn yn syniad da fel rhan o gyfres o fesurau gofodol ac amserol, ond rwy’n disgwyl i’r amodau cysylltiedig fod yn dryloyw a chael eu cyflwyno/gorfodi yn deg.*
- Mae’r SFF yn gallu gweld budd defnyddio trwyddedau fel rhan o fesurau gofodol ac amserol, ond byddai’n disgwyl i’r amodau cysylltiedig fod yn dryloyw a chael eu*



cyflwyno/gorfodi yn deg. Gallai'r SFF weld yr angen i ddefnyddio rhyw elfen o hanes gweithgarwch blaenorol ('track record') er mwyn diogelu defnydd diffiniedig traddodiadol o'r ardal gan rai cychod.

- Mewn egwyddor, ond rwyf angen mwy o wybodaeth am reolaethau a gweithgareddau rheoleiddio hanesyddol.
- Rydym yn gweld budd defnyddio trwyddedau fel rhan o gyfres o fesurau gofodol ac amserol, ond byddem yn disgwyl i'r amodau cysylltiedig fod yn dryloyw a chael eu cyflwyno/gorfodi yn deg.

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn cynnwys:

- Nid ydym yn cytuno. Os aiff hyn yn ei flaen, bydd yn cael effaith andwyol ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPA) eraill - bydd pob un ohonynt dan fygythiad, yn cynnwys rhai yn yr Alban. Mae angen i ni wneud mwy, nid llai, i warchod ardaloedd morol y DU yn cynnwys Cymru a'r Alban. Mae'r cam hwn yn gyfystyr â chaniatáu i rai eliffantod gael eu lladd am fod yna farchnad ifori. Byddai'n destun gwarth i Senedd Cymru os aiff y cynllun yn ei flaen. Fel cyd Geltaid, hoffem weld Cymru'n arwain y ffordd ym maes rheoli ardaloedd morol, nid moesyngrymu o dan bwysau gan y diwydiant, na fydd ond yn cynyddu os aiff y mesur hwn, sy'n gam mawr yn ôl, yn ei flaen.

**Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno â gosod amodau ar y drwydded, a fydd yn cael eu hystyried yn flynyddol a'u rhoi ar waith os yw'n briodol? Bydd hyn yn dilyn arolwg gwyddonol ac ymgynghoriad byr.**

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1276	20%	502	10%	3844	70%

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Ar hyn o bryd, mae cyfres o amodau o dan drwydded Is-ddeddf 12 NWNWSFC, Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010 a Gorchymyn Llusgrwydo Cregyn Bylchog (Dyfeisiau Olrhain) (Cymru) 2012 yn berthnasol yn ardal ACA Bae Ceredigion rhwng 0 môr-filltir a 12 môr-filltir, yn cynnwys amodau mewn perthynas â:
  - \* Cyfyngiadau offer technegol,
  - \* Maint cychod,
  - \* Pŵer injans,
  - \* Math o lusgrwyd,
  - \* Maint lleiaf cregyn bylchog,
  - \* Defnyddio Systemau Monitro Llongau y glannau (iVMS),
  - \* Rheolaethau amserol a gofodolNi ystyriir bod modd addasu'r mesurau rheoli cyfredol hyn yn sgil y broses ddeddfwriaethol o ddiwygio Offerynnau Statudol o dan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Cadwraeth) 1967.

Byddai cyflwyno cynllun trwyddedu newydd gydag amodau cysylltiedig o fewn fframwaith deddfwriaethol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn galluogi Llywodraeth Cymru i addasu ac i amrywio amodau'r drwydded yn unol â'r cyfyngiadau amgylcheddol. Bydd trefn drwyddedu newydd, fel yr un gyfredol, yn gofyn am asesiad amgylcheddol gan Lywodraeth Cymru o dan Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac ni ddylai effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle. Dylai unrhyw asesiad amgylcheddol gael ei ategu gan y wybodaeth ddiweddaraf am bysgodfeydd a gwyddoniaeth gadarn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno dull hyblyg o reoli'r bysgodfa cregyn bylchog yn ACA Bae Ceredigion ar yr amod nad yw'n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori Llywodraeth Cymru hefyd i gyflwyno mesur ychwanegol i gyfyngu ar gyfanswm y trwyddedau sydd ar gael i bysgota yn ACA Bae Ceredigion.

- Rwy'n cefnogi cyflwyno mesurau rheoli hyblyg ymatebol ochr yn ochr â gwyddoniaeth dda a ddylai sicrhau'r defnydd cynaliadwy o'r adnoddau
- Rydym yn gweld budd defnyddio trwyddedau fel rhan o gyfres o fesurau gofodol ac amserol, ond rydym yn disgwyl i'r amodau cysylltiedig fod yn dryloyw a chael eu cyflwyno/gorfodi yn deg.
- 1) Dylai trwyddedau gael eu cyfyngu i gychod lleol (lleol yng ngwir ystyr y gair, nid rhai sy'n lleol am gyfnod dros dro) hyd at faint arbennig, a 2) Deallwn fod rhywfaint o ddadlau ynghylch methodoleg asesiadau effaith Bangor, er nad yw'n glir wrth ysgrifennu hwn beth yn union yw'r broblem. Oherwydd hynny, rydym yn teimlo'n gryf na ddylai llusgrwydo ailgychwyn nes bod y dystiolaeth hon wedi cael ei chyhoeddi fel gwyddoniaeth wedi'i hadolygu gan gymheiriaid mewn cyfnodolyn cydnabyddedig. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae'n debyg y bydd rhaid cynnal yr ymchwiliad am flwyddyn arall, a dylid sicrhau cyllid i'r perwyl hwnnw.
- Ai diben trefn flynyddol ar gyfer trwyddedu yw cefnogi dull addasedig o reoli'r bysgodfa?
- Byddai'r SFF o blaid cyflwyno mesurau rheoli hyblyg ymatebol a ddylai, ar y cyd â gwyddoniaeth dda, sicrhau'r defnydd cynaliadwy o'r adnodd.

#### Cwestiwn 4 - Ydych chi o'r farn bod 'Rheoli Ymdrech' yn amod derbyniol i'w roi ar y drwydded?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1143	20	549	10	3930	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r egwyddor o reoli ymdrech yn y bysgodfa cregyn bylchog fel dull o gyfyngu ar effeithiau posibl ar yr amgylchedd. Dylai rheoli ymdrech gael ei ystyried o ran cyfanswm yr offer y gellir ei bysgota o fewn cyfnod penodol. Yn ein hymatebion i Gwestiynau 5 a 7 isod, rydym o blaid cyfyngu ar faint o offer y gall cychod unigol ei ddefnyddio a chyfyngu ar faint o amser y gall cychod ei dreulio'n pysgota. Rydym ni eisoes wedi dweud yn ein hateb i Gwestiwn 3 y dylai Llywodraeth Cymru



ystyried cyfyngu ar gyfanswm y cychod a all bysgota am gregyn bylchog o fewn ACA Bae Ceredigion, a byddai hyn ar y cyd â chyfyngiadau amser yn cyfyngu ar gyfanswm yr ymdrech.

- Byddai'r SFF o blaid cyflwyno mesurau rheoli hyblyg ymateb a ddylai, ar y cyd â gwyddoniaeth dda, sicrhau defnydd cynaliadwy o'r adnodd.
- Mae rheolaethau ymdrech fel Western Water Effort (WWE) yn adnabyddus fel mesur rheoli yn y sector cregyn bylchog. Fodd bynnag, rydym ni o'r farn eu bod fwyaf llwyddiannus o'u gwneud ar y cyd â'r pysgotwyr i sicrhau bod pob barn berthnasol yn cael ei hystyried, a bod y rheolaethau mwyaf priodol yn cael eu defnyddio.
- Cyfyngiadau Ymdrech ac Offer - Gan fod ACA Bae Ceredigion yn ardal sensitif, byddai'n well pe bai'r pysgota'n cael ei wneud gan nifer fach o gychod lleol sydd â buddiant hirdymor yng nghynaliadwyedd y bysgodfa a gyda'r capteiniaid yn gwbl ymwybodol o'r materion sensitif. Gellid ystyried y camau a gymerwyd yn Ynys Manaw mewn perthynas â physgota cregyn bylchog ym Mharth Cadwraeth Morol Ramsey Bay. Dylid rhoi cyfyngiadau offer ar waith. O gofio'r angen i feithrin pysgodfeydd lleol mewn ardal sensitif yn hytrach nag annog cychod mudol mawr sy'n tynnu 8-1 llusgrwyd ar bob ochr, dylid ystyried cyfyngu ar nifer y llusgrwydi i 3, neu 4 ar y mwyaf, ar bob cefn. Bydd achosion o dorri rheolau'n debygol o ymddangos ar gofnodion sonar wrth sganio ochrau cychod hyd yn oed os nad yw swyddogion patrol y pysgodfeydd yn gweld unrhyw beth o'i le.

#### Cwestiwn 5 - Ydych chi o'r farn bod 'Rheoli Offer' yn amod derbyniol i'w roi ar y drwydded?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1182	21	513	9	3927	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid parhau i ddefnyddio rheolaethau offer yn cynnwys; cyfyngiadau offer, maint cychod, pŵer injans a'r math o lusgrwyd a ddefnyddir i leihau'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd. Byddai cyflwyno cynllun trwyddedu gydag amodau rheoli offer cysylltiedig o fewn fframwaith deddfwriaethol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rhoi dull hyblyg i Lywodraeth Cymru o amrywio'r rheolaethau offer yn unol â'r cyfyngiadau amgylcheddol. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n annog Llywodraeth Cymru i ystyried ystod o ddulliau pysgota cregyn bylchog a'u heffaith wrth ystyried datblygiad cynaliadwy a rheoli adnodd naturiol mewn perthynas â'r stoc o gregyn bylchog.
- Mae mesurau technegol yn gallu cyfrannu hefyd, ond unwaith eto, byddai'n well eu cyflwyno ar y cyd ag ymchwil wyddonol ac mewn ymgynghoriad â chyfranogwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gytûn.

- Mae'n amlwg bod treillrwydi estyllod yn cael llai o effaith o dipyn ar wely'r môr, ac ar y ffawna benthig, na'r llusgrwydi Newhaven traddodiadol neu addasiadau o'r rhain (Hintz et al, 2012) ac felly dylid cyfyngu offer i dreillrwydi estyllod. Dylid cyfyngu ar faint cychod hefyd i sicrhau mai dim ond cychod lleol o'r glannau sy'n gallu pysgota'r bysgodfa

**Cwestiwn 6 - Ydych chi o'r farn bod 'Cwota' (yn seiliedig ar gyfanswm y ddalfa a ganiateir) yn amod derbyniol i'w roi ar y drwydded?**

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1134	20	567	10	3921	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Nid yw cregyn bylchog yn rhywogaeth TAC ar hyn o bryd felly a fyddai Cyfyngiadau Dalfa yn derm mwy priodol na Cwota? Byddwn i'n awgrymu 10 cwdyn/llusgrwyd/dydd.
- Ni chafwyd sylwadau pellach gan y rheini a oedd yn erbyn y cynnig.

**Cwestiwn 7 - Ydych chi o'r farn bod 'Cyfyngiadau Amserol' (cyfnod penodol pan mae'r bysgodfa ar agor) yn amod derbyniol i'w roi ar y drwydded?**

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1199	21	511	9	3917	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Rwyf gant y cant o blaid y gofyniad i gyfyngu ar bysgota i oriau golau dydd yn y bysgodfa, gyda chychod yn gorfod dychwelyd i'r lan bob nos. Mae hyn yn gweithio'n dda yn Ynys Manaw a byddai'n golygu bod rheoli'r bysgodfa'n haws o lawer.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid parhau i ddefnyddio cyfyngiadau amserol fel ffordd o leihau'r ymdrech bysgota yn y bysgodfa. Byddai cyflwyno cynllun trwyddedu gydag amodau amserol cysylltiedig o fewn fframwaith deddfwriaethol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rhoi dull hyblyg i Lywodraeth Cymru o amrywio amodau agor a chau'r bysgodfa yn unol â'r cyfyngiadau amgylcheddol
- Rydym yn cytuno bod angen gosod mesurau rheoli amserol ar yr adnodd, er efallai na fydd oriau ar y môr yn ddefnydd effeithlon o ymdrech mewn ardal lle mae diwrnodau ar y môr yn fesur gorfodadwy sy'n ofyniad cyfreithiol. Byddem yn disgwyl i wyddoniaeth, monitro dalfeydd ac asesu maint glanio lleiaf (MLS) i gyd gyfrannu at benderfynu union bameddrau agor a chau'r bysgodfa.



- Mae'r SFF yn cytuno bod angen gosod mesurau rheoli amserol ar yr adnodd, er efallai na fydd oriau ar y môr yn ddefnydd effeithlon o ymdrech mewn ardal lle mae diwrnodau ar y môr yn fesur gofynnol yn gyfreithiol. Byddai'r SFF yn disgwyl i wyddoniaeth, monitro dalfeydd ac asesu meintiau i gyd gyfrannu at benderfynu union bamedrau agor a chau'r bysgodfa.

### Cwestiwn 8 - Ydych chi o'r farn bod 'Cylchdroi Ardaloedd Agored' yn amod derbyniol i'w roi ar y drwydded?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1153	20	542	10	3932	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Byddai'r SA yn hapus i gylchdroi ardaloedd caeedig ond fel yn achos mesurau amserol, byddem yn disgwyl i wyddoniaeth, monitro dalfeydd ac asesu meintiau i hyd gyfrannu at amlinellu'r ardaloedd sydd i'w cau yn eu tro.
- Cafodd asesiadau effaith Prifysgol Bangor (Murray et al 2015) eu cynnal dros gyfnod o ryw 12 mis. Maent yn dangos bod graean a gwaddodion tebyg yn adfer yn weddol gyflym. Rhaid cylchdroi ardaloedd agored i roi amser i'r ardaloedd sydd wedi'u treillio i adfer yn llwyr cyn cael eu pysgota drachefn.
- Pedwar blwch, pob un ar agor am 3 mis. Pob blwch yn cael 3 mis o ymdrech yna 21 mis o amser adfer.
- Cytuno, ond ar fyr rybudd. Hoffwn weld 4 blwch, pob un ar agor am 3 mis, sy'n golygu y byddent yn cael eu pysgota am 3 mis bob 2 flynedd, a byddai'r rhai sydd ar gau yn ardaloedd diogel ar gyfer offer sefydlog (cewyll crancod a chregyn moch).
- Nid yw'n glir sut bydd hyn yn cael ei wneud.
- Rwy'n anghytuno'n gryf y dylai cylchdroi ardaloedd agored fod yn amod derbyniol i'w roi ar unrhyw drwydded. Mae'r ardal agored bresennol lle rydym wedi bod yn pysgota am y pedair blynedd diwethaf wedi bod o dan bwysau pysgota aruthrol, nes bod rhaid rhoi'r gorau i bysgota'n gynnar wrth i ddalfeydd leihau. Mae cael ardaloedd caeedig yn arwain at nifer fawr o gychod yn pysgota mewn ardal fach, sy'n rhoi pwysau gormodol ar y stoc sydd ar gael; mae dalfeydd yn dda yn y lle cyntaf ond buan iawn y maent yn edwino ac mae rhai cychod yn dal ati i bysgota, gan ddarwagio'r adnodd ymhellach. Rwy'n cynnig y dylid agor arfordir Cymru i gyd ar gyfer llusgrwydo cregyn bylchog. Byddai hyn yn golygu bod cychod'n fwy gwasgaredig, sy'n golygu nad yw'r ymdrech wedi'i chrynhai cymaint mewn un man. Hefyd, byddai caniatáu i gychod bysgota ble bynnag y mynnont yn fwy diogel o lawer gan y gallai cychod bysgota gwahanol rannau o'r arfordir sy'n cynnig cysgod yn dibynnu ar y tywydd. Mae Bae Ceredigion yn agored iawn ar gyfer cychod llai; pe bai llefydd eraill fel Bae Sain Ffraid ar agor, byddai modd pysgota mewn dyfroedd mwy cysgodol. Fel hyn, byddai cychod yn gallu gwneud bywoliaeth heb orfod mentro ymhellach o'r lan.

**Cwestiwn 9 - Ydych chi o'r farn bod 'Cyfyngiadau Isafswm Maint' yn amod derbyniol i'w roi ar y drwydded?**

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1226	22	469	8	3932	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Mae angen esbonio'r term 'Cyfyngiadau Isafswm Maint'. Ai'r cwch neu'r cregyn bylchog sydd dan sylw (gweler eitem 2 (b) ac (f) yn y ddogfen ymgynghori)?
- Amheus – Pan roedd gwaith yn cael ei wneud i arbrofi gyda magu larfa cregyn bylchog yn yr Uned NEERC ym Mhorthaethwy, gwelwyd bod rhagolygon goroesi cregyn bylchog a oedd wedi'u dal mewn llusgrwydi i'w defnyddio fel stoc magu yn wael hyd yn oed os nad oedd fawr o ddifrod i ymyl ac ymyl mantell y gragen. Felly mae'n debygol y bydd cyfraddau goroesi cyfran sylweddol o'r cregyn bylchog a gaiff eu gwrthod yn isel. Yr unig sefyllfa lle byddai isafswm maint yn werthfawr yw pe bai yna gyfran uchel o anifeiliaid bach, ac os felly, cau'r ardal honno fyddai orau.
- Nid oedd 8% yn cytuno â'r cynnig, ond ni roesant ragor o dystiolaeth i ategu eu hymateb.

**Cwestiwn 10 - Ydych chi o'r farn bod 'Cau ardal ar fyr rybudd' yn amod derbyniol i'w roi ar y drwydded?**

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1246	22	443	8	3938	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Rwy'n cytuno mewn egwyddor gan fod y cynnig yn cefnogi C3 a rheoli addasedig, ond er hynny, rhaid i newidiadau rheoli yn ystod y tymor fod yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Efallai y bydd angen cau ardal gyfan neu ran ohoni weithiau am resymau annisgwyl yn ymwneud â'r bysgodfa yn ogystal â rhesymau amgylcheddol.
- Hanfodol. Cyn gynted ag y mae ardal yn yr ACA yn dangos arwyddion o ddifrod, rhaid ei chau ar unwaith. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut, a pha mor aml, y bydd unrhyw ddifrod yn cael ei fonitro, a bydd gan hyn oblygiadau mawr o ran adnoddau.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid cyflwyno amod, fel rhan o gynllun trwyddedu, i gau ardal o'r bysgodfa ar fyr rybudd. Byddai hyn yn rhoi dull hyblyg i Lywodraeth Cymru o ymateb i unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol a allai godi yn y dyfodol.
- Dim ond os oes rheswm pendant dros wneud hynny.



- *Ar yr amod bod yna dystiolaeth aruthrol a'i bod wedi'i datgan/cyhoeddi*
- *Byddai hyn i weld yn synhwyrol a dylai bod trothwyon diffiniedig fel yn achos gwyddoniaeth, dalfeydd a maint anifeiliaid, er mwyn rhoi sefyllfaedd realistig ar gyfer gweithredu'r amod cau ardaloedd.*

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig yn cynnwys:

- *Byddai'n gwneud pysgota'n anodd ac ni fyddai modd ei ddarogan.*

**Cwestiwn 11 - Ydych chi o'r farn bod 'Gofynion Casglu Data' yn amod derbyniol i'w roi ar y drwydded?**

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1292	23	398	7	3937	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- *Byddwn i'n llwyr gefnogi amodau o'r fath fel bod y data gorau posibl yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y wyddoniaeth er mwyn sicrhau'r mesurau rheoli gorau ar gyfer y bysgodfa.*
- *Byddai'r SFF yn llwyr gefnogi amodau o'r fath fel bod y data gorau posibl yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y wyddoniaeth er mwyn sicrhau'r mesurau rheoli gorau ar gyfer y bysgodfa.*
- *Mae casglu data fel hyn yn gost effeithiol iawn.*
- *A fyddai'r drefn casglu tystiolaeth a data sydd mewn golwg yn cyflawni'r gofynion i lywio trothwyon amharu a therfynau dal blynyddol?*
- *Ydw – ond ddim yn rhy feichus.*
- *Dylai data gael ei gyflwyno'n aml, nid ar ddiwedd y tymor. Ystyried apiau ffôn a'r dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer gwneud hyn.*

**Cwestiwn 12 - Ydych chi o'r farn bod 'Gofynion Casglu Tystiolaeth' yn amod derbyniol i'w roi ar y drwydded?**

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1296	23	399	7	3932	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn hanfodol er mwyn gallu rheoli'r bysgodfa ar sail gwybodaeth, ac mae defnyddio cychod pysgota i gasglu data'n gwneud synnwyr o ran adnoddau ac arbenigedd. Dylai unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu gan bysgotwyr gadw at fethodolegau casglu safonol a dylai'r wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd
- I'w benderfynu gan y Bwrdd Cynghori. Dylai deiliaid trwydded ganiatáu casglu data ar is-ddalfa organebau benthig eraill. Caniatáu gosod camerâu teledu cylch cyfyng dros dro o bosibl. Mae hyn wedi bod yn fuddiol wrth gasglu data gwyddonol mewn pysgodfeydd eraill heb yr angen i gael arsylwyr ar fyrddau cychod.
- Byddwn i'n llwyr gefnogi amodau o'r fath fel bod y data gorau posibl yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y wyddoniaeth er mwyn sicrhau'r mesurau rheoli gorau ar gyfer y bysgodfa.
- Byddai'r SFF yn llwyr gefnogi amodau o'r fath fel bod y data gorau posibl yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y wyddoniaeth er mwyn sicrhau'r mesurau rheoli gorau ar gyfer y bysgodfa.
- Ond byddai angen monitro annibynnol hefyd

Ni wnaeth ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig ddarparu tystiolaeth bellach i ategu eu hymateb.

**Cwestiwn 13 - Ydych chi o'r farn bod 'Gosod Systemau Monitro Cychod priodol (yn cynnwys technoleg offer i mewn, offer allan)' yn amod derbyniol i'w roi ar y drwydded?**

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1266	23	416	7	3945	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Ond nid oes angen plismona'r sefyllfa'n ormodol
- Pob cwch, dylai fod yn orfodol
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid parhau i ddefnyddio System Monitro Llongau ar y glannau (iVMS) i olrhain lleoliad cychod. Mae defnyddio iVMS yn llwyddiannus yn rhoi mwy o warchodaeth i nodweddion safleoedd mewn ardaloedd yn yr ACA lle mae pysgota cregyn bylchog wedi'i wahardd.
- O ystyried yr ardaloedd bach sydd i'w pysgota, rhaid i'r gyfradd gofnodi fod yn ddigon aml i osgoi'r temtasiwn i lusgo i ardaloedd caeedig rhwng cofnodion. Data VMS i fod ar gael i bawb yn fuan ar ôl diwedd y tymor pysgota.
- Cytunwn fod VMS a rhyw ddull o gofnodi digwyddiadau llusgo yn rhan hanfodol o waith monitro ymdrech amser real yn y bysgodfa.



- *Cytunaf fod VMS a rhyw ddull o gofnodi digwyddiadau llusgo yn rhan hanfodol o waith monitro ymdrech amser real yn y bysgodfa.*
- *Mae'r SFF yn cytuno bod VMS a rhyw ddull o gofnodi digwyddiadau llusgo yn rhan hanfodol o waith monitro ymdrech amser real yn y bysgodfa.*
- *Mae VMS yn hanfodol fel bod modd monitro safle pob cwch sy'n pysgota yn yr ardal. Felly rhaid gosod offer VMS sy'n gweithio, sy'n cofnodi bob 30 munud neu'n amlach (Lambert et al 2012) ar bob cwch sy'n pysgota cregyn bylchog, a rhaid ei monitro drwy'r dydd, bob dydd, sy'n amlwg yn golygu goblygiadau o ran adnoddau i Lywodraeth Cymru.*
- *Ond nid offer i mewn, offer allan (rhy gymhleth a'r potensial o fynd o le). Mae gennym ni 2 fath o ddyfeisiau olrhain ar fwrdd y cwch. Rwy'n meddwl bod offer i mewn, offer allan yn ddiangen ac yn anwadal a gallai arwain at golli amser pysgota.*

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn cynnwys:

- *Dim offer i mewn, offer allan - Mae olrhain yn hanfodol, ond nid yw gormod o offer electronig yn beth da, does dim byd yn 100% berffaith a gall arwain at gost a cholli amser pysgota.*

**Cwestiwn 14 - Ydych chi'n cytuno â chodi ffi am bob trwydded, a fydd yn cael ei gosod bob blwyddyn a hynny ar lefel a fydd yn annog cyfranogiad y rheini sydd â buddiant hirdymor yn lles y bysgodfa?**

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1244	22	449	8	3954	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- *Dylai ffioedd trwyddedau fod yn fforddiadwy i gychod lleol sy'n pysgota'r glannau. Credwn yn gryf hefyd y dylid cyfyngu trwyddedau i gychod o'r fath, ac ni ddylid eu rhoi i unrhyw gychod o du hwnt i Fae Ceredigion. Bydd angen gofalu nad oes unrhyw ffordd y gall cychod "estron" gofrestru fel rhai lleol dros dro. Dylid diddymu trwyddedau os oes unrhyw dystiolaeth o dorri'r amodau.*
- *Dim ond os na fyddai'r swm yn cyfyngu ar weithredoedd pysgota lleol ar raddfa fach ar y glannau.*
- *Cyn belled nad yw'n rhoi cychod o Gymru sy'n pysgota'r glannau o dan anfantais wrth allu cymryd rhan yn y bysgodfa drwy leihau eu helw/risg yn anghymesur*
- *Cyn belled mai i dalu costau gweinyddol ydyw ac nid ffordd gudd o godi treth!*
- *Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid codi ffi am bob trwydded, a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i fuddsoddi cyfran o ffioedd y cynllun trwyddedu mewn arolygon asesu stoc blynyddol ac mewn astudiaethau gwyddonol pellach i ganfod pa mor gynaliadwy yw'r bysgodfa yn yr hirdymor*

- *Dylai ffioedd trwyddedau fod yn fforddiadwy i gychod lleol sy'n pysgota'r glannau. Credwn yn gryf hefyd y dylid cyfyngu trwyddedau i gychod o'r fath, ac ni ddylid eu rhoi i unrhyw gychod o du hwnt i Fae Ceredigion. Bydd angen gofalu nad oes unrhyw ffordd y gall cychod "estron" gofrestru fel rhai lleol dros dro. Dylid diddymu trwyddedau os oes unrhyw dystiolaeth o dorri'r amodau.*

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn cynnwys:

- *Dim ond pan fyddwch chi'n ei wneud yn Orchymyn Pysgodfa Unigol*
- *Rwy'n anghytuno gyda chodi ffi am drwyddedau a allai arwain at gychod llai sy'n pysgota'r glannau yn cael eu gorfodi allan o'r bysgodfa*
- *Er fy mod yn cytuno â chael ffi mewn egwyddor, byddai cost uchel systemau monitro ac ati yn gwneud cost trwydded yn afresymol i gychod cregyn bylchog rhan-amser bach fel ni sydd ond yn pysgota cregyn bylchog am rai wythnosau'r flwyddyn, ac sydd â'r buddiant mwyaf yn lles hirdymor y bysgodfa. Byddai treth am bob bag gynnig gwell*
- *Anghytuno'n gryf â chyflwyno ffi am drwydded. Gallai hyn ddechrau patrwm sy'n destun pryder. Fel rhywun sydd wedi gweithio yn nyfroedd Cymru am bron i ddeng mlynedd, ni fyddai codi ffi am drwydded yn arwain at unrhyw ganlyniad cadarnhaol oherwydd mae'n amlwg bod cychod yn dychwelyd i'r ardal pan nad oedd ffi am drwydded o'r blaen. Dim ond ffordd o wneud arian yw hyn ac ni fyddai'n arwain at unrhyw fudd hirdymor ar gyfer buddiant hirdymor yn lles y bysgodfa.*
- *Byddai'r SA mewn egwyddor yn gwrthwynebu ffi am drwydded i bysgota cregyn bylchog, gan weld hyn fel ffordd o erydu hawl y cyhoedd i bysgota.*
- *Byddai'r SFF mewn egwyddor yn gwrthwynebu ffi am drwydded i bysgota cregyn bylchog, gan weld hyn fel ffordd o erydu hawl y cyhoedd i bysgota. Dylai trafodaethau gyda gweinyddiaethau a darpar bysgotwyr weld pa angen sydd am ffi, os o gwbl.*

**Cwestiwn 15 - Ydych chi'n cytuno â sefydlu bwrdd cynghori ar reoli, i gynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth oruchwylio'r bysgodfa?**

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
1354	24	326	6	3947	70

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- *Byddai'r SFF yn croesawu sefydlu bwrdd cynghori ar reoli, a byddai'n disgwyl i ddetholiad rhesymol o gyfranogwyr y bysgodfa gael ei gynnwys ochr yn ochr â Gweinyddwyr, Gwyddoniaeth a Chyrff Cadwraeth Natur Cenedlaethol*
- *Ydw, os oes ganddynt gefndir pysgota a'u bod yn gyfarwydd â'r ardal*



- *Ydw, cyn belled â bod bwrdd o'r fath yn cynnwys ystod eang o gynghorwyr*
- *Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid Llywodraeth Cymru yn sefydlu Bwrdd Cynghori ar Reoli gyda chylch gwaith clir i gyfrannu at ddylunio'r arolwg gwyddonol blynyddol.*
- *Er bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl statudol i gynghori Llywodraeth Cymru ar effaith unrhyw bysgodfa flynyddol sydd mewn golwg, byddem yn awyddus i ymwneud â'r Bwrdd arfaethedig. Credwn fod ymgysylltu cynnar wrth ddatblygu gwyddoniaeth neu ddylunio'r arolwg o fantais yn yr hirdymor fel bod unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu yn wyddonol gadarn ac yn addas i'r diben.*
- *Byddem yn croesawu sefydlu bwrdd cynghori ar reoli, a byddai'n disgwyl i ddetholiad rhesymol o gyfranogwyr y bysgodfa gael ei gynnwys ochr yn ochr â Gweinyddwyr, Gwyddoniaeth a Chyrff Cadwraeth Natur Cenedlaethol*
- *Byddai'r SFF yn croesawu sefydlu bwrdd cynghori ar reoli, a byddai'n disgwyl i ddetholiad rhesymol o gyfranogwyr y bysgodfa gael ei gynnwys ochr yn ochr â Gweinyddwyr, Gwyddoniaeth a Chyrff Cadwraeth Natur Cenedlaethol*
- *Mae gen i nifer o bryderon difrifol iawn am gyflwyno bwrdd cynghori ar reoli, yn cynnwys pwy fyddai ar y bwrdd, sut byddai aelodau'n cael eu dewis a pha bwerau fyddai gan fwrdd o'r fath. Mae potensial i hyn lwyddo, ond o brofiad blaenorol, rwy'n ofni na fyddai gan reolwyr y bwrdd ddigon o gynrychiolwyr o blith pysgotwyr, ac mae'n anochel y byddai hyn yn arwain at benderfyniadau gwael.*

## **Cwestiwn 16 - Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am amodau ychwanegol i'w rhoi ar y drwydded, yr hoffech i ni eu hystyried?**

Cafwyd sylwadau gan 1236 (22%) o ymatebwyr naill ai o blaid neu yn erbyn y cynigion a roddwyd. Ceir trawstoriad o'r sylwadau isod. Bydd rhestr o'r holl sylwadau'n cael ei darparu os oes angen.

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- *Pysgota yn ystod oriau'r dydd yn unig gyda chychod yn dychwelyd i'r lan bob nos – Dim ond mewn porthladdoedd a drefnwyd ymlaen llaw y gellir dod â chregyn bylchog i'r lan er mwyn sicrhau data cywir am ddalfeydd – Y cynllun trwyddedu arfaethedig i gynnwys y pwerau i 'Ddiddymu neu Atal Dros Dro' – Defnyddio Cosbau Gweinyddol Sefydlog am fethu â chydymffurfio – Dim ond cychod pysgota bach gydag uchafswm o 4 llusgrwyd bob ochr y caniateir rhwng 3 a 6 môr-filltir o'r arfordir – Yn gyson â manyleb y gorchymyn Cregyn Bylchog presennol, cychod mwy yn cael gweithredu rhwng 6 a 12 môr-filltir o'r arfordir – Trwydded i nodi nifer y 'llusgrwydi bob ochr' a fydd yn aros yr un fath gydol y tymor.*
- *(i) Dim ond cychod bach sy'n pysgota'r glannau sydd ag uchafswm o 4 llusgrwyd bob ochr y caniateir i weithredu rhwng 3 a 6 môr-filltir o'r arfordir. (ii) Yn gyson â manyleb y gorchymyn Cregyn Bylchog presennol, cychod mwy yn cael gweithredu rhwng 6 a 12 môr-filltir o'r arfordir. (iii) Trwydded i nodi nifer y 'llusgrwydi bob ochr' a fydd yn aros yr un fath gydol y tymor. (iv) Defnyddio Cosbau Gweinyddol Sefydlog am fethu â chydymffurfio. (v) Y cynllun trwyddedu arfaethedig i gynnwys y*



pwerau i 'Ddiddymu neu Atal Dros Dro'. (vi) Dim ond mewn porthladdoedd a drefnwyd ymlaen llaw y gellir dod â chregyn bylchog i'r lan er mwyn sicrhau data cywir am ddalfeydd.

- Dylai trwyddedau gael eu rhoi ar sail cefndir a dylent adlewyrchu ymrwymiad rhai cychod/perchenogion i'r bysgodfa hon dros yr 8-10 mlynedd diwethaf. Os bydd trwyddedau'n cael eu rhoi i unrhyw un sy'n gwneud cais, byddai'n cael effaith ddychrynlyd gan y byddech chi'n gweld cychod di-ri yn tyrru yno. Mae'n hanfodol cylchdroi ardaloedd, a dylid asesu'r sefyllfa'n fisol. Gallai hyn arwain at dymor byrrach yn yr hirdymor ond gyda chofnodi'r holl ddata byddai'n osgoi cwotâu unigol, sy'n broblem fawr yn y sector pysgod gwyn. Mae'n debyg na fyddai gwahardd pysgota yn y nos yn ymarferol oherwydd y tywydd tymhorol a'r pellteroedd hir sy'n rhaid eu teithio i ganfod harbwr/angorfa addas. Byddai hyn yn rhoi pysgotwyr mewn perygl.
- Gwahardd pysgota rhwng 7am a 5pm, cynyddu'r isafswm maint o 110mm i 115 neu hyd yn oed 120mm, cynyddu maint modrwy bol llusgrwydi, terfyn ar nifer y bagiau yr wythnos, pawb i ddefnyddio bagiau 35 cilogram i'w prynu gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos enw'r cwch, pysgotwyr yn unig yn cael eu talu am hyd at 35 cilogram y bag, unrhyw beth dros hynny'n cael ei dalu i Lywodraeth Cymru i ariannu'r bysgodfa.
- Terfyn llym ar nifer y trwyddedau sy'n eiddo i neu'n cael eu rheoli gan unrhyw unigolyn, corfforaeth neu grŵp. Mae methiant i reoli hyn yn briodol yn yr hirdymor wedi cael effaith negyddol sylweddol ar ddyrannu trwyddedau yn y pysgodfeydd cocos yn y Wash a'r Tafwys. Rwyf wedi clywed sôn bod un unigolyn wedi ceisio cael nifer fawr o drwyddedau ym mhysgodfa cregyn bylchog ar y glannau yn yr IFCA Gogledd-ddwyrainiol (a fu'n destun is-ddeddf newydd yn ddiweddar).
- Dylai trwydded fod yn seiliedig ar gefndir yn unig, yr un fath ag Ynysoedd y Sianel ac eraill, sy'n ffordd dda o ddiogelu'r bysgodfa

Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn cynnwys:

- Ni ddylid caniatáu pysgota cregyn bylchog ym Mae Ceredigion.
